


Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB31: Asesiad Tirwedd

Hydref 2026

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
AIL GYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD
CRYNODEB O'R ASESIAD TIRWEDD
CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth adolygu a chadw dynodiadau tirwedd lleol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd 2020-2035. Mae'r asesiad yn ystyried rôl barhaus Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Thirweddau Lleol Gweledol Pwysig wrth ddiogelu tirweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu pwysigrwydd amgylcheddol, diwylliannol a gweledol.

Pam Mae Tirweddau yn Bwysig

Mae tirweddau yn rhan bwysig o hunaniaeth y Fwrdeistref Sirol ac yn cyfrannu at gymeriad lleol, bioamrywiaeth, hamdden, twristiaeth, iechyd a lles, a gwydnwch hinsawdd. Maent hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cymunedau, asedau treftadaeth a rhwydweithiau ecolegol. Mae diogelu tirweddau gwerthfawr yn helpu i sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn parchu ac yn gwella rhinweddau unigryw'r ardal.

Sut y Cynhaliwyd yr Asesiad

Mae'r asesiad yn seiliedig ar fethodoleg LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y dull cydnabyddedig ar gyfer asesu tirweddau yng Nghymru. Mae LANDMAP yn gwerthuso tirweddau drwy ddefnyddio pum thema wahanol:

- Tirwedd Ddaearegol
- Cynefinoedd Tirwedd
- Gweledol a Synhwyraidd
- Tirwedd Hanesyddol
- Tirwedd Ddiwylliannol

Mae'r fethodoleg yn defnyddio proses asesu strwythuredig i adnabod tirweddau sydd o bwysigrwydd lleol neu ranbarthol ac a all fod yn haeddu cael eu diogelu drwy bolisi cynllunio.

Dynodiadau Tirwedd Presennol

Mae Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig y Cyngor yn nodi chwe Ardal Tirwedd Arbennig:

- Dyffryn Rhymni Uchaf
- Gelligaer
- Mynydd Eglwysilan
- Gogledd Caerffili
- De Caerffili
- Mynydd Islwyn

Dynodwyd yr ardaloedd hyn oherwydd ansawdd eu tirwedd a'u pwysigrwydd i'r Fwrdeistref Sirol.

Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Cynhaliwyd yr astudiaeth ATA wreiddiol yn 2008 a sefydlodd fethodoleg gyson ar gyfer adnabod tirweddau o bwysigrwydd lleol. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r dystiolaeth hon ac wedi dod i'r casgliad bod yr asesiad sylfaenol, y fethodoleg a'r rhesymeg dros y dynodiadau

yn parhau'n ddilys. Er bod rhywfaint o ddiweddaru wedi digwydd i ddata LANDMAP a pholisi cynllunio ers cwblhau'r astudiaeth wreiddiol, mae'r nodweddion a'r rhinweddau a gyfiawnhaodd y dynodiadau yn parhau i fodoli.

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cynnig cadw pob un o'r chwe Ardal Tirwedd Arbennig bresennol o fewn y 2ILlC Adnau. Dim ond mewn mannau lle mae datblygiadau sylweddol eisoes wedi digwydd neu lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi y gwnaed newidiadau i'r ffiniau.

Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas y Cyngor hefyd yn dangos rôl bwysig y tirweddau hyn wrth gefnogi bioamrywiaeth, cysylltedd ecolegol, hamdden, treftadaeth ddiwylliannol, gwydnwch hinsawdd a lles cymunedol.

Tirweddau Lleol Gweledol Pwysig

Mae Tirweddau Lleol Gweledol Pwysig yn ardaloedd sy'n gwneud cyfraniad arbennig o bwysig at osodiad ac ymddangosiad aneddiadau. Er efallai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ehangach sy'n ofynnol ar gyfer dynodi fel Ardal Tirwedd Arbennig, cânt eu cydnabod am eu rhinweddau gweledol cryf a'u cyfraniad at gymeriad lleol.

Nododd astudiaeth ar wahân bedair ardal sy'n addas i'w dynodi'n Dirweddau Lleol Gweledol Pwysig:

- Gogledd Dyffryn Rhymni
- Manmoel
- Abercarn
- Rudri

Mae'r Cyngor o'r farn bod canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau'n berthnasol ac yn gadarn ac felly mae'n cynnig cadw'r dynodiadau hyn o fewn y 2ILlC Adnau. Gwnaed mân ddiwygiadau i'r ffiniau mewn mannau lle mae datblygiad wedi digwydd neu wedi cael ei gymeradwyo.

Polisiau Cynllunio Arfaethedig

Er mwyn sicrhau bod y tirweddau hyn yn parhau i gael eu diogelu, mae'r asesiad yn argymell polisïau cynllunio sy'n:

- Dynodi a diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig.
- Dynodi a diogelu Tirweddau Lleol Gweledol Pwysig.
- Ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu warchod neu wella cymeriad a rhinweddau tirwedd.
- Sicrhau bod datblygiad yn cael ei integreiddio'n briodol i'w amgylchedd ac yn parchu nodweddion tirwedd lleol.

Casgliad

Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y rhwydwaith presennol o Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Thirweddau Lleol Gweledol Pwysig yn parhau i ddarparu fframwaith priodol ar gyfer cydnabod a diogelu tirweddau mwyaf gwerthfawr y Fwrdeistref Sirol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y tirweddau hyn yn parhau i fod yn asedau amgylcheddol pwysig ac yn parhau i gefnogi bioamrywiaeth, treftadaeth, hamdden, lles ac unigrywiaeth leol. Am y rhesymau hyn, mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r dynodiadau presennol, yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau i'r ffiniau yn unig, fel rhan o'r 2ILlC Adnau.